**Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 9fed Tachwedd 2005 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8 .00pm**

**Presennol:** Cyng Ros Bellamy, Y Maer Colin Jenkins, Cyng Pam Steane Price, Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns, Cyng Roy Davies, Cyng Richard Wallace, Cyng Fran Murphy, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol, Roger Phillips Clerc y Dref.

**Ymddiheuriadau :** Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Paul Faulkner.

**6641 /Tachwedd /05 Anfonebau i'w Talu.**

(i) Deta Electrical £130.16 – **Ddim i'w dalu, Swyddog Technegol i gysylltu.**

(ii) WCVA £ 34.66 - **symud**

(iii) WCVA £ 123.62 - **symud**

(iv) Cyflogau staff – rheol sefydlog £ 558.00 - ( £681.62 gros) **symud.**

(v) Kingsbury Electrics ( Goleuadau Nadolig) £ 165.17 - **symud**

(vi) Zurich Municipal ( Yswiriant Tân Gwyllt) £ 340.20 - **symud**

**Taliad Ôl-weithredol.**

(vii) Apêl y Pabi y Lleng Brydeinig £ 25.00 - **symud**

**6642 / Tachwedd / 05 Incwm a dderbyniwyd**

(i) Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed £ 2791.75

(ii) 2x tocynnau cinio'r Maer £ 34.00

(iii) Llog y Banc £ 0.52

(iv) Arian wrth y giât yn yr Arddangosfa Tân Gwyllt a gwerthu'r breichledau £ 1894 .01

Cytunwyd y dylid trosglwyddo'r incwm o £34 i gyfri'r Maer.

.

**6643 / Tachwedd /05 Balansau'r Cyfrif**

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL £ 5157 . 89

LTC CYFRIF ADNAU (31.10.05) £ 33928. 86

LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER ( 31.10.05 ) £ 2256.23

**6644 / Tachwedd / 05 Materion Ariannol Eraill.**

1. Diolchodd y Maer, Cyng Colin Jenkins i'r Cynghorwyr a Staff wnaeth fynychu a helpu yn yr arddangosfa Tân Gwyllt.
2. Y Cyngor oedd yn berchen ar y breichledau, ac mae unrhyw incwm a dderbyniwyd yn eiddo iddynt hwy.
3. Roedd £2000 yn cynnwys TAW wedi'i ganiatáu ar gyfer prynu'r Tân Gwyllt.
4. Wrth gynllunio ar gyfer y digwyddiad y flwyddyn nesaf argymhellwyd y dylid cyflawni asesiad risg ym mis Mawrth 2006.
5. Argymhellwyd y dylid gwneud y rhoddion canlynol am yr help a gafwyd yn ystod y digwyddiad. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Pawb o blaid.
   Ambiwlans St Ioan £ 50
   Ford Gron Llandeilo £50
6. Fe fydd yna ychydig o dreuliau ychwanegol i'w talu a thrafodir y rhain yng nghyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cyllid.

**6645 / Tachwedd / 05 Goleuadau Nadolig 2005.**

Adroddodd y Cadeirydd, Cyng Hugh Towns fod y Cyngor wedi gosod cyllideb o £5000 ar gyfer y goleuadau Nadolig eleni. Mae'r gost o wifrio'r goleuadau yn eu lle yn £3800 ac o ganlyniad i ystyriaethau diogelwch newydd fe fydd yn mynd rhwng £1000-1500 yn fwy na'r gyllideb. Argymhellodd i'r Cyngor Llawn y dylid adolygu'r gost o ddarparu Goleuadau Nadolig y flwyddyn nesaf. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Pawb o blaid. Fe fydd rhai o gostau eleni yn caniatáu gwneud arbedion y flwyddyn nesaf.
Adroddodd y swyddog technegol fod y contractwr ar gyfer gosod y goleuadau heb ei gofrestru gyda NICEIC ond ei fod wedi'i gofrestru gyda ELECSTRA.
Y gwobrau ar gyfer cystadleuaeth y siop ffenest fydd – Y wobr 1af £50, 2il wobr £30, 3edd wobr £20.
Gwahoddir band, Ambiwlans St Ioan, y Ford Gron a Chylch y Merched i gynorthwyo gyda'r noson.

**6646 / Tachwedd / 05 Materion Ariannol a Godwyd yn ystod y Gwerthusiadau Staff.**

Argymhellwyd y dylid ystyried y rhain fel yr eitem olaf yng nghyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Tachwedd.

**6647 / Tachwedd / 05 Archwiliadau Chwarterol**

1. Ebrill – Mehefin. Archwiliwyd saith cofnod

- Doedd yna ddim rhifau cofnod ar y daenlen. Cywirwyd hyn.

2. Gorffennaf – Medi. Archwiliwyd yr holl eitemau gwariant

- Mae angen cofnodi'r taliad o £446.50 yn cynnwys TAW yn ôl-weithredol i Hugh Gwynne.
  Mae angen cofnodi cyflogau staff fel symiau net gan gofnodi cyfraniadau Treth ac Yswiriant Gwladol.

**6648 / Tachwedd / 05 Ceisiadau Cyllideb oddi wrth weithgorau.**

1. Mae'r gweithgor Treftadaeth yn obeithiol y byddant yn derbyn rhan o'r grant y gwnaed cais amdano. Nid ydynt yn rhagweld y bydd angen taliadau ychwanegol ar gyfer 2006-7.

2. Gofynnwyd am gyllideb o £5000 gan brosiect yr Ardd.

3. Gosodwyd y gyllideb Goleuadau Nadolig dros dro ar £6000 i fyny o £5000.

4. Y gyllideb Arddangosfa Tân Gwyllt ar £3500 i fyny o £2500.

5. Prosiect Neuadd y Sir i gyllidebu ar gyfer grant cynnal a chadw o £5000 er mwyn galluogi cynllunio ar gyfer rhaglen gynnal a chadw dreigl.

**6649 / Tachwedd / 05 Eitemau Eraill ar y Gyllideb.**

Dynodwyd y canlynol fel rhai sydd angen cymorth ariannol yn ystod 2006-7:-

1. Cymdeithas Gefeillio'r Dref
2. Yr Eisteddfod Genedlaethol sydd i'w chynnal yn Sir Gaerfyrddin.
3. Cynnal a chadw Llwybrau Troed.
4. Gwefan y Dref.
5. Gwesteion a wahoddir i Ginio'r Maer.

Argymhellwyd cynnal cyfarfod arbennig i drafod eitem unigol sef y gyllideb ar gyfer 2006-7 ar ddydd Iau 8fed Rhagfyr am 7pm yn Neuadd y Sir. Y Cyng Colin Jenkins i hysbysu Cambria ynglŷn â'r cyfarfod. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Pawb o blaid.

**6650 / Tachwedd / 05 Gohebiaeth Parthed Cyllid.**

1 Adroddwyd gan y Swyddog Technegol fod angen edrych ar y simnai yn Neuadd y Sir ar sail diogelwch. Argymhellwyd y dylid chwilio am brisiau er mwyn tynnu'r simnai i lawr neu ei thrwsio.

2 Adroddodd y Swyddog Cyllid fod y WCVA wedi gofyn i'r Cyngor wneud y siŵr fod arian sy'n daladwy yn cael ei anfon ymlaen cyn diwedd pob mis.

3. Adroddodd y Swyddog Cyllid fod yr Archwiliwr allanol wedi gofyn am esboniad ynglŷn â'r swm o £2008.73 a dalwyd i mewn i gyfrif y Cyngor ar y 4ydd Gorffennaf, 2004.

4. Llythyr oddi wrth Mr Gwilym Hughes yn esbonio'r trefniadau newydd ar gyfer swyddfa'r Cyngor a'r les. Argymhellwyd fod y Cyngor yn anghofio am y cynnydd o 12% yn y rent, hyd nes fod yr archwiliadau cyfreithiol wedi'u gwneud, a bod y swyddfa dros dro wedi'i sefydlu'n barhaol.

5. Mae'r Cyng Hugh Towns wedi ateb D. Gilbert o CSC mewn perthynas â chyfraniad y Cyngor i'r arian cyfatebol sydd ei angen ar gyfer y cais am grant i'r Llwybr Treftadaeth.

6. Argymhellwyd y dylid rhoi £10 i'r Cyng Roy Davies mewn perthynas â thanwydd a'r defnydd o'r torrwr brwsh wrth glirio Gardd y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm.